"A"

# CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun, 3ydd Ebrill, 2023**, yn Neuadd Goffa, Sarn, o 7.30 p.m. hyd 9.30 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Glyn Roberts (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Siôn Williams (Is-Gadeirydd)
Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Elin Hughes, Gwenan Griffiths, Dylan Parry Jones, Efan Thomas, Carys E. Williams
Y Cynghorydd Gareth Williams (Cynghorydd Pen Draw Llŷn ar Gyngor Gwynedd)

Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Michael Strain, Glenys Williams, Iwan J. Williams

113. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

**Croesawodd** yr Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

114. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Nododd y rhai a ganlyn ddiddordeb mewn materion i'w trafod a nodir hynny o dan yr eitem berthnasol: Y Cynghorydd Glyn Roberts, Y Cynghorydd Gareth Williams (Cynghorydd Pen Draw Llyn ar Gyngor Gwynedd) a'r Clarc.

115. **CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 13eg MAWRTH, 2023**

**Cyflwynwyd,** cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd 13eg Mawrth, 2023. (Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Dylan Parry Jones ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Carys H. Evans gyda phawb yn cytuno).

**Materion yn codi**

**(a) Eitem 108 Cadarnhau Cofnodion – cymal (A)…Cronfa Cofid**

**Adroddodd** y Clarc iddi gysylltu a:

AHNE Llyn er canfod a oedd grant ar gael ar gyfer y postiau blodau, hysbysfyrddau, lloches bws a chael ar ddeall fod y gronfa yn dal yn agored ond oherwydd yr amser byr i baratoi penderfynwyd ei adael hyd y flwyddyn ariannol 2023/24.

Rheolwr Meddygfa Rhydbach ynglyn a gosod y lloches bws – er nad oeddynt yn datgan gwrthwynebiad 'roedd ganddynt rai pryderon.

Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd ceisio symud ymlaen i:

Brynu potiau blodau a'u lleoli ger arwydd Sarn Mellteyrn; ar y gyffordd sy'n arwain am Fryncroes; dros y ffordd i'r hen Lythyrdy ym Motwnnog; ger Y Fantol, Rhoshirwaun a Chomin Bryncroes.

Gwneud ymholiadau am y costau a.y. ac adrodd yn ôl i'r aelodau.

O berthynas i'r lloches bws – ei leoli dros y ffordd i'r Feddygfa a gofyn am ganiatad perchennog y tir, Mr. a Mrs. Ken Evans, Pont-y-Gof, petai angen defnyddio ychydig o'u tir. Ceisio amcanbris am loches bws agored i'r safle.

**Penderfynwyd** gweithredu'n unol a'r uchod.

**(b) Eitem 108 Cadarnhau Cofnodion – cymal (c) Is-bwyllgor Cyllid a chymal (c) Cyfarfod o Bwyllgor Ardal Dwyfor o Un Llais Cymru**

**Adroddodd** y Clarc fod yr Is-bwyllgor wedi cyfarfod ar 24ain Mawrth, 2023, ac anfonwwyd copi o'r canlynol i bob aelod gyda'r rhaglen:

copi o'r Pecyn Cymorth Cyllid a llywodraeth ar gyfer Cynghorau Cymuned wedi ei gwblhau

drafft o adroddiad y Cyngor am 2022/23.

drafft o'r cynllun hyfforddi.

drafft o adroddiad ar y dyletswydd biomamrywiaeth a chydnerthed ecosystemau 2023.

Nodwyd i'r Cynghorydd Carys H. Evans allu cael copi o'r dogfennau uchod gan Glarc Cyngor Cymuned Llanystumdwy, a diolchwyd am y cymorth gafwyd er galluogi'r is-bwyllgor seilio eu hymatebion ar y dogfennau hyn.

O berthynas i:

**Pecyn Cymorth** – roedd y Cyngor yn fodlon ac yn derbyn oll o'r ymatebion.

**Adroddiad y Cyngor am 2022/23** – angen newid:

Tudalen 1 – Ardal Cymdeithas Botwnnog, yr ail baragraff I ddarllen:

"asgwrn cefn yr economi leol yw'r diwydiannau amaeth, bwyd a thwristiaeth ac mae'r tirwedd yn gymysgedd o dir glas, rhosydd, coedwigaeth, afonydd a nentydd ac hefyd filltir o arfordir ym Mhorth Neigwl."

Tudalen 1 – Gwybodaeth am y Cyngor

"'Roedd 766 o etholwyr …" ".Mae tair ward yn y gymuned a 11 cynghorydd wedi eu hethol hyd fis Mai 2027 …"

Tudalen 2 – paragraff cyntaf i ddarllen:

"Cynhelir cyfarfodydd arferol y Cyngor Cymdeithas yn fisol ar yr ail nos Lun bob mis, heblaw am fis Awst. Cynhelir y cyfarfodydd yn Gymraeg. Yn ogystal â chyfarfodydd llawn y Cyngor cefnogir gwaith y Cyngor gan roi hawliau ym mis Awst i'r Cadeirydd ag aelodau'r Ward berthnasol drafod unrhyw gais cynllunio ddaw i fewn yn ystod y gwyliau ac hefyd hawl i'r Cadeirydd awdurdodi unrhyw daliad ddaw yn ddyledus yn ystod yr un cyfnod"

Tudalen 2 – Aelodaeth allanol – tynnu fod y Clarc yn perthyn i'r 'Society for Local Council Clerks'. Hefyd tynnu allan 'O Ddrws i Ddrws' gan nad oes gan y Cyngor aelod ar y corff.

Tudalen 2 – Cyllid a gwariant – trydydd paragraff – 'Bydd y Clarc yn anfon e-bost yn chwarterol drwy ffurflen excel i'r Cynghorwyr yn dangos y sefyllfa ariannol...."

Tudalen 3 – Crynodeb derbyniadau a thaliadau 2022/23 – hwn i'w addasu yn dilyn cwblhau'r flwyddyn ariannol.

Tudalen 6 – tynnu allan "glanhau llochesi bws o fewn y gymuned."

**Cynllun Hyfforddi –** derbyn y ddogfen. Nodwyd y rhannwyd gwybodaeth am y cyrsiau gynnigir gan Un Llais Cymru yn ystod y mis ond nid oedd unrhyw aelod yn dymuno mynychu y tro hwn.

**Adroddid ar y dylestwydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau 2023** – penderfynwyd derbyn yr adroddiad ac fod arfarniad o'r ddogfen i ddigwydd yn y cyfarfod blynyddol.

(c) **Eitem 110 – Materion Ffyrdd a Llwybrau –**

**Cyflwynwyd** ymateb Peiriannydd Rhanbarthol Ardal Dwyfor i faterion anfonwyd i'w sylw ym mis Chwefror a Mawrth:

Tai Cyngor Sarn am Bodnithoedd, Botwnnog – "mae'r safle yma eisoes wedi'I adnabod a'i ychwanegu at restr waith a chaiff sylw pan mae adnoddau ar gael."

Bryngwdyn, Botwnnog – "mae'r safle yma eisoes wedi'i adnabod a'i ychwanegu at restr waith a chaiff sylw pan mae adnoddau ar gael."

Penrhos – "yn dilyn penderfyniadau i gau'r lôn ym Mhenrhos A499 – mae arwyddion yn cael eu gosod ar hyd y gwyriad mor fuan a phosibl. Mae hyn yn cynnwys ar hyn o bryd arwyddion yn Rhydgaled yn rhybuddio fod Penrhos ar gau. Yn ogystal mae'r Adran yn adolygu trefn arwyddo'r gwyriad, a byddwn yn cynnwys ail edrych ar sut mae'r gwyriad yn cael ei arwyddo tu hwnt i'r ardal uniongyrchol, mewn lleoliadau fel Penygroeslon er enghraifft."

Bin Halen ger Chwarel Nanhoron
"Mae trefniadau mewn llaw i lenwi'r bin halen."
Potiau Blodau
"Yr Uned Gwaith Stryd, o fewn yr Adran Amgylchedd sy'n rheoli cymeradwyo ceisiadau i osod potiau blodau ar ymylon y briffordd. Mae cyfarpar fel potiau blodau a meinciau yn cael ei drwyddedu fel 'dodrefn stryd' o dan Adran 115B/115E o'r Deddf Priffyrdd 1980, a gallwch geisio am drwydded drwy gysylltu â'r uned hwnnw drwy'r cyfeiriad ebost gwaithstryd@gwynedd.llyw.cymru"

## 116. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ni dderbyniwyd unrhyw gais i'w ystyried.

## 117. MATERION FFYRDD A LLWYBRAU

(a) **Cais am arwydd Bryncroes**
**Derbyniodd** Y Cynghorydd Gareth Williams (Cynghorydd Pen Draw Llŷn ar Gyngor Gwynedd) gais gan Gwenda Jones, 2 Tyn Llan, Bryncroes, am gael arwydd 'BRYNCROES' newydd ar y gyffordd sy'n troi am y pentref.
**Penderfynwyd** gofyn i AHNE Llyn a fyddai modd iddynt roi arwyddo newydd yma.
**(b) Cyflwynwyd** gwybodaeth gan yr Adran Rhaglen waith trafnidiaeth a phrifyrdd am fis Ebrill 2023 fod twll ymchwil ger Garej Tegfan, Llangwnnadl yn cael ei wneud.

## 118. AWDURDOD I DALU

**Penderfynwyd** awdurdodi'r taliadau a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| Archwilio Cymru – archwiliad 2019/20 | £200.00 | (200781) |
| Arfon Parry (Cradur.com) – gwe-letya a chynhaliaeth 2023 | £ 44.00 | (200782) |
| Un Llais Cymru (aelodaeth 2023-24) | £178.00 | (200783) |
| Yswiriant Zurich | £838.34 | (200784) |

Yn y cyswllt 'yswiriant Zurich' gofynnodd y Clarc a oedd unrhyw aelod yn dymuno cael golwg ar yr hyn a gynigir o dan y polisi – ond ni ofynnodd unrhyw aelod am gael gweld y dogfennau.

## 119. CEISIADAU AM GYFRANIADAU ARIANNOL

**Cyflwynwyd** y ceisiadau a ganlyn i sylw'r aelodau – copi o'r ceisiadau wedi ei anfon i bob aelod gyda'r rhaglen.
**Penderfynwyd**

(a) Cyfrannau i'r rhai a ganlyn:
Canolfan Gymdeithasol Bryncroes £200.00 (200785)
(Datganodd Y Cynghorydd Glyn Roberts ddiddordeb yn y cais hwn ac ymneilltuodd o'r ystafell yn ystod y drafodaeth a'r pleidleisio).
Clwb Snwcer Sarn £200.00 (200786)
(Datganodd Cynghorydd Gareth Williams (Cynghorydd Pen Draw Llŷn ar Gyngor Gwynedd) ddiddordeb yn y cais hwn ac ymneilltuodd o'r ystafell yn ystod y drafodaeth a'r pleidleisio).
Cronfa Goffa Will Pent Sun Inn £100.00 (200787)
Cylch Meithrin Pont y Gof, Botwnnog £200.00 (200788)
(Datganodd Y Clarc ddiddordeb yn y cais hwn ac ymneilltuodd o'r ystafell yn ystod y drafodaeth a'r pleidleisio).
Ty Gobaith £ 50.00 (200789)
(b) Peidio cyfrannu i Theatr Bara Caws
(c) Gwneud ymholiadau pellach ynglyn a chais 'Clwstwr Ysgolion Ysgol Botwnnog' ac yn dilyn yr atebiad ymholi gyda Mel ab Owain, Un Llais Cymru, am yr hawl i gyfrannu.

120. **ARCHWILIO'R CYFRIFON**

**Penderfynwyd** gofyn i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol, Cyngor Gwynedd, ymgymryd ag archwilio'r cyfrifon am y flwyddyn 2022/23.

**121. COMIN BRYNCROES**

**Gofynnodd** y Clarc a ddylid parhau i geisio cael cyfraniad gan Gwmni W.F. Clayton am gael defnydd o'r Comin tra'n gweithio ar y tai Cyngor ym Mryncroes.

**Penderfynwyd** anfon at y Cwmni unwaith yn rhagor.

124. **SWYDD Y CLARC A'R SWYDDFA**

**Ystyriwyd** yr angen i gael gliniadur ar gyfer y Cyngor fel cynllun wrth gefn. **Awdurdodwyd** y Clarc i brynu gliniadur i fyny at £400 ac fod y ad-daliad i'w wneud yn syth iddi.

Materion eraill oedd angen eu hystyried oedd cael e-bost i'r Cyngor (mae e-bost eisoes mewn grym ond ei fod yn treiddio'n ôl i e-bost gwaith dyddiol y Clarc); peiriant copio; taliad am y swyddfa a.y.

Gadawodd y Clarc yr ystafell er galluogi'r aelodau drafod y mater ymhellach.

Nodyn gan y Cadeirydd – **penderfynwyd** ymhellach i godi'r cyflog i £2,100 y flwyddyn o 1af Ebrill, 2023 (£525 bob tri mis), ynghyd a'r treuliau i'w talu bob tri mis. (Taliadau i'w gwneud ym mis Mehefin, Medi, Rhagfyr a Mawrth yn flynyddol).